## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**31.** Brics glo Dual a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln–

(a) a gyfansoddir o olosg petrolewm (sef tua 55 i 80% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef tua 8 i 20% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 8 i 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a chaledu oer;

(c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd sgwâr;

(d) sy'n pwyso 100 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.